Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Rhagfyr 2024

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cafodd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm)[2], gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, eu cyflwyno gan Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd ar 15 Gorffennaf 2024.

**2.** Ar 16 Gorffennaf 2024, yn dilyn ymddiswyddiad Jeremy Miles AS o Lywodraeth Cymru, gwnaeth Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ynghylch y Bil.[3]

**3.** Ar 17 Medi 2024, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd i gadarnhau mai Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet), yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil erbyn hyn.[4]

**4.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 23 Hydref 2024[5], gan:

- Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg;
- Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru; a
- Joanne Corke, Pennaeth Grŵp Ymchwil, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

**5.** Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar oblygiadau'r Bil o ran polisi.[6]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[7]

[1] Llywodraeth Cymru, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2024
[4] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 17 Medi 2024
[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Hydref 2024
[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**7.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, a diben cyffredinol y Bil yw:

> *"… cyfrannu at y nod hwnnw drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Yn benodol, yr amcan yw i bob disgybl feithrin sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2, o leiaf, o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd."*[8]

**8.** Dywed y Memorandwm fod "gan y system addysg rôl annatod i'w chwarae er mwyn inni wireddu'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr" ac mai uchelgais Llywodraeth Cymru yw:

> *"… bod pawb sy'n dysgu mewn ysgol neu leoliad yng Nghymru yn cael eu cefnogi i fwynhau defnyddio'r Gymraeg, i wneud cynnydd parhaus wrth ddysgu Cymraeg ac i gael yr hyder a'r sgiliau iaith fel y gallan nhw ddewis defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth."*[9]

**9.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Bil yn cynnwys cynigion polisi newydd yn ogystal â chyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n dweud y bydd y cynigion yn "cryfhau ac yn ategu prosesau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol" ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru "gynllunio addysg Gymraeg yn bwrpasol i wella deilliannau ieithyddol ein disgyblion"[10].

**10.** Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth, 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg', gan ddatgan nod hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[11] Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwreiddiau'r Bil yn mynd yn ôl i strategaeth 2017 Llywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ers dechrau tymor y Senedd.[12]

---

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 3
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 3
[11] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Gorffennaf 2017
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 8

## Crynodeb o'r costau

**11.** Cost gyffredinol cyflwyno'r Bil yw £103.2 miliwn dros gyfnod arfarnu deng mlynedd (2025-26 i 2034-35). Mae crynodeb o'r rhain yn Nhabl 1.[13]

Tabl 1: Crynodeb o oblygiadau ariannol y Bil

| | **Amcangyfrif cost (£'miliwn)** | | |
|---|---|---|---|
| | **Pontio** | **Rheolaidd** | **Cyfanswm** |
| **Rhan 1: Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg** | | | |
| Llywodraeth Cymru | **0.1** | **-** | **0.1** |
| | | | |
| **Rhan 2: Disgrifio gallu o ran y Gymraeg** | | | |
| Llywodraeth Cymru | **0.3** | **-** | **0.3** |
| | | | |
| **Rhan 3: Addysg cyfrwng Cymraeg** | | | |
| Llywodraeth Cymru | 0.4 | - | 0.4 |
| Llywodraeth Cymru (*Ysgolion) | - | 35.0 | 35.0 |
| Awdurdodau Lleol | - | 2.5 | 2.5 |
| Ysgolion | - | 10.2 | 10.2 |
| Llywodraeth Cymru (*Awdurdodau Lleol) | - | 16.1 | 16.1 |
| **Cyfanswm Rhan 3** | **0.4** | **63.9** | **64.2** |
| | | | |
| **Rhan 4: Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg** | | | |
| Llywodraeth Cymru/Ysgolion | 0.1 | 0.3 | 0.4 |
| Llywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol | - | 31.5 | 31.5 |
| Awdurdodau Lleol | - | 1.8 | 1.8 |
| Estyn | - | 0.2 | 0.2 |
| **Cyfanswm Rhan 4** | **0.1** | **33.7** | **33.8** |
| | | | |
| **Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol** | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | **0.4** | **3.8** | **4.2** |
| Adolygiad ôl-weithredu | **0.6** | **-** | **0.6** |
| Cyfieithu | **0.0** | **-** | **0.0** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **1.8** | **101.4** | **103.2** |

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 109

**12.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn rhagdybio y bydd unrhyw fuddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i ddysgu'r Gymraeg, megis y cynllun sabothol Cymraeg[14], yn cael eu 'cynnal i'r dyfodol'. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"The actual costs, the new costs, are accounted for in the regulatory impact assessment, but the Bill is essentially about making the very best use of resources that are already there in the system."*[15]

**13.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"… that's the foundational principle of the Bill: that the significant resources that are there now will continue to be available. The RIA then does set out, at the different milestones of the Bill, where additional costs might be incurred—very often they are opportunity costs rather than actual financial costs, although they are monetised for the purpose of the RIA."*[16]

**14.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r amcangyfrifon fel ffigurau manwl gywir, yn hytrach nag amrywiaeth o gostau. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dull hwn wedi'i benderfynu yn dilyn adborth gan arbenigwyr mewn gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddol ar y fethodoleg orau i'w defnyddio wrth ddarparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ychwanegu:

> *"… had ranges been the preferred method for describing and capturing the costs involved in the Bill, the ranges would have been so wide that they would have effectively been meaningless, because you would have had to have captured… costs from that end of the spectrum where you're talking about a very small school where very little Welsh is currently taught, to a very large school where Welsh is the medium of instruction, and everything in between."*[17]

**15.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor mai'r dull gorau o gyfleu'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil oedd darparu ffigur canolbwynt gan mai dyma fyddai:

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 12
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 10
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 12
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 16

> *"… precise figure, rather than figures that don't illustrate the fact that things are more varied on the ground."*[18]

**16.** Daeth yr Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

> *"… offering these midpoint figures gives the committee and those who are interested in the Bill the most insight into the likely costs and the future trajectory of those costs."*[19]

**17.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr arian sydd eisoes ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu ysgolion yn allweddol, a bod angen cadw cronfeydd o'r fath drwy gydol cyfnod asesu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cyflawni nodau polisi'r Bil.[20]

**18.** Cadarnhaodd y swyddog na chynhaliwyd unrhyw ymarfer modelu fel rhan o amcangyfrif y costau sy'n ymwneud â gweithgarwch datblygu gweithlu ysgolion, ond nododd:

> *"… money currently within the system to support schools in doing that should remain, and then perhaps when we get to the stage of having that more detail within the new WESPs, et cetera, we would be able to undertake an exercise like that."*[21]

**19.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen ystyried nifer o newidynnau, megis maint ysgolion, cymeriad ieithyddol ysgolion, y ddaearyddiaeth y mae ysgolion yn ei gwasanaethu, adeiladau ysgol a'r adnoddau sydd ganddynt, er mwyn darparu ffigurau penodol ar fuddsoddiadau yn y dyfodol.[22] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… the RIA offers the best estimates we can, but says regularly, as you will have seen, that we will need to return to these figures, because one of the other things that the Bill will do will be to improve the data that we have about the nature of Welsh language teaching, particularly in mainly English schools in the future, and that those figures will need to be returned to as that data improves. But the RIA provides the best estimates that we*

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 17
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 22
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 30
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 34
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 13

> *are currently able to provide, using the data sources that are already available."*[23]

## Goblygiadau ariannol y Bil

**20.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai'r gost weinyddol net sy'n gysylltiedig â'r Bil yw £5.8 miliwn, sy'n cynnwys £1.8 miliwn o gostau trosiannol a £4.1 miliwn o gostau rheolaidd.[24]

**21.** Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau, gan gynnwys datblygu cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, canllawiau a rheoliadau, a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu Fframweithiau Cenedlaethol a sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[25]

**22.** Mae'r costau trosiannol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â chost amser staff ac fe'u disgrifir fel 'costau cyfle'. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys tablau ar gyfer y rhain, sy'n rhestru gradd y staff a'r Cyfwerth ag Amser Llawn.[26]

**23.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro bod tri senario wedi'u creu i ragweld canlyniadau posibl unwaith y daw'r Bil yn gyfraith. Y llinell sylfaen ar gyfer y senarios hyn yw'r model Busnes Fel Arfer presennol, a thystiolaeth a ddarperir gan randdeiliaid, data gweinyddol a mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r senarios. Gellir crynhoi'r senarios fel a ganlyn:

- Senario 1 – Mae'r cynnydd yn dda tuag at y nod o sicrhau bod pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 yn gallu siarad Cymraeg yn annibynnol ac yn hyderus. O ganlyniad i hyn, mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd â'r gweithgareddau presennol. Mae hyn yn golygu bod effaith y Bil a'r costau cysylltiedig i randdeiliaid yn fach iawn, ond nid yw'r costau wedi'u mesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- Senario 2 – Nid yw cynnydd tuag at y nod o sicrhau bod pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 yn gallu siarad Cymraeg yn annibynnol ac yn hyderus yn cyrraedd y disgwyliadau. O ganlyniad i hyn, mae darpariaethau'r Bil yn gwella gweithgareddau presennol i gyd-fynd

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 14
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 110
[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 110
[26] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 126

yn well â thargedau allweddol. Mae'r Bil yn cael effaith a chost i randdeiliaid ac mae'r costau hyn wedi'u meintioli.

- Senario 3 – Mae'r Bil, ar ôl iddo gael ei ddeddfu, yn ymwahanu'n sylweddol oddi wrth y model Busnes Fel Arfer. Mae ei ddarpariaethau yn llawer mwy uchelgeisiol nag arferion presennol, gan arwain at effeithiau a chostau sylweddol i randdeiliaid, ond nid yw'r costau wedi'u mesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[27]

**24.** Mae llawlyfr deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn nodi y "bydd angen paratoi dadansoddiad cost a budd manwl ar gyfer pob opsiwn". Mae'r llawlyfr yn mynd ymlaen i ddweud:

> *"… argymhellir yn gryf bod timau Biliau yn nodi'r costau a ysgwyddir gyda'r opsiwn 'Parhau fel Arfer', gan bwysleisio nad yw costau o'r fath yn rhai ychwanegol, yn ogystal â'r costau 'ychwanegol',er mwyn bodloni gofynion Rheolau Sefydlog, ac er mwyn darparu cyngor llawn a phriodol i Weinidogion."*[28]

**25.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw senario un wedi'i gostio oherwydd:

> *"… scenario 1 is business as usual, and our assessment is, and the reason why we have a Bill is, that if we just let things continue as they are, then we would not be extracting the maximum impact we can from the education system for the 2050 ambition."*[29]

**26.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai senario dau, yr unig senario sydd wedi'i gostio, sy'n rhoi'r cyfle gorau i gyflawni'r uchelgeisiau. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"The Bill is designed to be ambitious but achievable. It's trying to find that spot where you are stretching, you are making better use of the resource that is there already, but that it is not so far beyond the capacity of the system that it becomes self-defeating. That's option 2 …"*[30]

**27.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 121
[28] Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mehefin 2024, tudalen 48
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 94
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 95

> *"The middle scenario is what the Bill is designed to support and to promote, and we provide the costs for that."*[31]

**28.** O ran senario tri, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r senario hwn yw'r un lle nad yw ymdrechion y Bil yn llwyddo. Fodd bynnag, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y mesurau lliniaru y mae'r Bil yn eu cynhyrchu yn ddigon i sicrhau nad yw senario 3 yn digwydd.[32] Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y mater hwn, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… I think there are a series of things in the Bill designed to make sure that the resources that are currently in the system are used to better effect, and ways in which we can add to the capacity of the system in future."*[33]

**29.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod senario tri yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid y bydd y Bil yn cyflwyno newidiadau cynhwysfawr i'r targedau a'r systemau presennol sy'n sail i bolisi iaith Gymraeg gan arwain at gostau sylweddol. Myfyriodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"There may be a whole other range of actions you would need to take if scenario 3 were to materialise. We don't believe it will. We believe that scenario 2 and the Bill itself and other things will give us that pathway to 2050."*[34]

**30.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi opsiynau amgen i gyflawni bwriad polisi rhai cynigion yn y Bil heb ddeddfu. Fodd bynnag, nid yw'n mesur y costau cysylltiedig, ond mae'n eu disgrifio fel 'uchel,' 'canolig,' neu 'isel.'[35] Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet beth oedd y prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn, eglurodd:

> *"… in making that choice was less about cost and more about effectiveness of the policy. So, yes, there would have been other ways in which the policy could have been taken forward, including non-legislative routes, but the Government decided that, to be effective in marshaling the education system behind*

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 96
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 96
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion 24 Hydref 2024, paragraff 39
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 100
[35] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 116

> *our ambitions for the Welsh language, you did need the force of statute behind it."*[36]

**31.** Daeth yr Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

> *"… the RIA does not provide costs for the course of action that the Welsh Government had decided not to take. It provides costs for the course of action we had decided to take and the reason for it was not financial, it was policy."*[37]

## Barn y Pwyllgor

**32.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cefnogi nod y Bil i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Rydym yn cefnogi ymrwymiad y Bil i wneud y gorau o'r adnoddau sydd eisoes ar gael ac yn nodi y bydd y rhain yn cael eu hategu gan adnoddau ychwanegol i gael yr effaith fwyaf posibl lle bo angen.

**33.** Rydym yn nodi ymhellach fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r amcangyfrifon fel ffigurau manwl gywir, yn hytrach nag amrywiaeth o gostau, yn wahanol i'r ffordd y caiff gwybodaeth o'r fath ei chyflwyno yn yr Asesiad ar gyfer nifer o Filiau eraill. Rydym hefyd yn cytuno â barn yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai cynnwys ystod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi bod mor eang fel ei fod i bob pwrpas wedi bod yn ddiystyr. Yn yr achos hwn, o ystyried yr amrywiad eang mewn costau ar draws pob ysgol yng Nghymru, rydym yn cytuno bod y dull a fabwysiadwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn deg ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod yr amcangyfrifon a ddarparwyd mor gywir ag y gallant fod.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**34.** Rydym yn cydnabod y bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ystyried costau buddsoddi yn y dyfodol unwaith y bydd gan Lywodraeth Cymru fwy o ddata am natur addysgu'r Gymraeg a hefyd bod casglu'r data hyn yn un o'r darpariaethau yn y Bil.

**35.** Serch hynny, mae gennym bryderon ynghylch y ffordd y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi amcangyfrif costau sy'n ymwneud â chynllunio gweithlu ysgolion. Yn benodol, rydym yn pryderu na chynhaliwyd unrhyw ymarfer modelu

---

[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 63
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 63

fel rhan o weithgarwch datblygu’r gweithlu ysgolion a bod Llywodraeth Cymru yn aros am ragor o wybodaeth cyn y gall ddarparu amcangyfrifon cost mwy cywir. Er ein bod yn cydnabod bod amcangyfrif costau o’r fath yn heriol, rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i gadw llygad barcud ar gostau yn y maes hwn ac i roi manylion i’r Pwyllgor ynghylch pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddata am natur addysgu’r Gymraeg ddod ar gael.

**Argymhelliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau pryd y bydd data am addysgu’r Gymraeg yng nghyd-destun datblygu gweithlu ysgolion ar gael.

**36.** Mae’r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y dadansoddiad cost a budd ar gyfer pob un o’r tri senario yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu cynnwys. Mae llawlyfr Llywodraeth Cymru ei hun yn cynghori y dylid cynnwys costau ar gyfer yr holl opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae’n syndod felly nad yw’r Asesiad ar gyfer y Bil hwn wedi dilyn y dull hwn ac yn gofyn am gynnwys hwn i gefnogi’r gwaith o graffu ar oblygiadau cost yr holl Filiau a gyflwynir.

**Argymhelliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys dadansoddiad cost a budd manwl ar gyfer yr holl opsiynau sy’n cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn a’r holl filiau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn y Senedd yn y dyfodol, yn unol â’i chanllawiau ei hun.

# 3. Costau eraill sy'n deillio o'r Bil

## Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg

**37.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y Bil yn gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgolion i baratoi, ymgynghori ar, a chyhoeddi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg.[38]

**38.** Wrth ymateb i gwestiwn am y ddyletswydd i nodi faint o addysg Gymraeg sydd ar gael i ysgolion ym mhob categori iaith, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd angen i'r cynlluniau hyn ystyried y ddarpariaeth ofynnol ar gyfer addysg Gymraeg, a fydd yn cael ei gosod fel a ganlyn:

> *"… a 10 per cent minimum of the compulsory school day that will be expected to be devoted to the purposes of Welsh language education in schools that are primarily English in their medium of instruction. And there are costs that we provide in the Bill of doing that."*[39]

**39.** O ran codi'r ddarpariaeth leiaf o 10 y cant, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i godi'r trothwy isaf drwy reoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ac y byddai unrhyw gostau dilynol yn cael eu nodi bryd hynny. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… the Bill provides the scaffolding, which means that the costs will always be known to the Senedd in making its decision as to whether or not to support a proposal, for example, to go from 10 per cent to a higher figure."*[40]

**40.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai £7,100 yw cyfanswm y gost ar gyfer paratoi'r fersiwn gyntaf a'r ail fersiwn o gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg fesul ysgol, a chyfanswm y gost ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yw £10,218,600 dros y cyfnod arfarnu. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar 0.1 cyflog cyfwerth ag amser llawn pennaeth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn disgwyl iddo ddatblygu'r cynllun.[41] Pan holwyd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet sut y cyfrifwyd y gost hon o ystyried y gall cyflogau penaethiaid amrywio, eglurodd:

---

[38] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 133
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 106
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 106
[41] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 136

> *"We took the average headteacher salary in Wales, as set out in the school workforce annual census, divided it by 12, added 30 per cent on for on-costs, so, that may be some of the difference. And then, we've looked at year 5 and year 8 as being slightly different: so, the first time that you do a plan, it being six months at 0.1 per month for year 5, and then half that for year 8."*[42]

**41.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes disgwyl i'r cynlluniau cyflawni fod yn hir a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"… we provide the cost for that in the RIA. I think those are costs that will be absorbed by schools, and they have five years before they have to do this. So, they have plenty of time to think about it and to prepare the ground through the school development plan work that they already have to do."*[43]

**42.** Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet a fyddai unrhyw arbedion o ran costau cyfle gan ysgolion sy'n cydweithio ag ysgolion tebyg yn yr un ardal, eglurodd:

> *"… the Bill does provide for schools to come together in that way. I myself believe that the case for doing that is pretty strong, particularly, maybe, in the south-east of Wales, where this Bill is concerned. We don't cost it for the Bill, because that is a choice that schools themselves would make. But the Bill does make provision for schools to be able to act in that way …"*[44]

**43.** Daeth yr Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad y bydd gan ysgolion o fewn yr un ardal lawer o bethau yn gyffredin, ac felly:

> *"… there will be lots to learn from one another, and that would be effective in a cost sense as well as a getting-a-better-plan sense."*[45]

**44.** O ran sut y mae'r cymorth ychwanegol i roi'r rhaglenni cyflawni ar waith wedi'i gostio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn bwriadu i bob math o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn y

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 78
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 73
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 65
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 69

system barhau (fel y '*cynllun pontio*', grant datblygu capasiti gweithlu cyfrwng Cymraeg a'r bwrsari cadw athrawon arfaethedig ym maes y Gymraeg).[46]

## Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

**45.** Mae'r Bil yn ceisio diwygio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol (WESPs)[47], sydd wedi bod ar waith ers 2013 o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.[48]

**46.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro "mae cryn dipyn o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran y ffordd y caiff adnoddau i weinyddu a chefnogi CSCAau eu trefnu"[49]. Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet sut yr oedd yr amrywiadau hyn wedi cael eu hystyried wrth amcangyfrif cost y diwygiadau hyn, eglurodd:

> *"… [the cost] is derived from the grants that the Welsh Government currently provides to support local authorities to develop WESPs. So, that's the money that's already in the system. We assume, for the Bill, that those costs will remain into the future."*[50]

**47.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod awdurdodau lleol wedi canfod bod meintioli costau ychwanegol dadansoddi data'r gweithlu i gynllunio'r gweithlu addysgu yn heriol a bod yr amcangyfrifon gan awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr. O ran sut yr amcangyfrifwyd y gost o tua £11,600 i bob awdurdod lleol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro fel a ganlyn:

> *"Cyflwynir ein hamcangyfrif gorau, yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol, fel cyfartaledd amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol, wedi'i luosi â nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gydnabod y gall costau fod yn uwch i rai awdurdodau lleol ac yn is i eraill. Tybiwyd y byddai'r gost i bob awdurdod lleol tua £11,600 y flwyddyn a disgwylir i awdurdodau lleol fynd i'r gost hon o Flwyddyn 4 (2028-29)."*[51]

[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 88
[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 145
[48] Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
[49] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 145
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 127
[51] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 147

**48.** Mae'r Bil yn cynnig rôl fonitro i Estyn gynnal adolygiad cyflym o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol os daw "patrwm o dangyflawni i'r amlwg"[52].

**49.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y math o waith y byddai Estyn yn ei wneud:

> *"One is a rapid review, where something is thought to be going wrong and Estyn needs to go in and do a rapid review of what is happening. But Estyn will also be doing routine monitoring of WESPs that are in steady state and where they don't need that sort of intervention. So, the estimate of £23,500 is based on the resources that Estyn itself has provided to us. So, these are the actual costs that it would assume."*[53]

**50.** Gall costau gynyddu os bydd angen adolygu Cynlluniau Strategol ychwanegol. Nid yw amcangyfrif cost yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ystyried y gost ychwanegol bosibl hon.[54]

## Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**51.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd yn dod yn weithredol ym mis Awst 2017, i gyd-fynd â diwedd y cytundeb ariannu presennol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[55]

**52.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai cyfanswm cost cylchol amcangyfrifedig yr Athrofa dros y cyfnod arfarnu yw £35,374,100, gan gynnwys costau staff a rhentu swyddfeydd.[56] Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y costau'n cynnwys grant presennol y Ganolfan, a strwythur staffio'r trefniadau presennol.[57] Amcangyfrifir y byddai'r costau presennol i'r Ganolfan, pe na bai'r Bil yn cael ei weithredu, yn £31,566,400 dros y cyfnod arfarnu.[58]

**53.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

---

[52] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 147
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 135
[54] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 148
[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 153
[56] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 155
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 139
[58] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 152

> *"We've looked at the annual accounts of the national centre. We've taken advice from the centre itself, its own expertise, as to what it thinks the costs of the athrofa will be in the future, and, of course, we have a considerable body of expertise within the Welsh Government in those civil servants who have been the sponsors of the national centre, who know how it works, who know what the costs are, and have used that expertise in providing the costs that the RIA does for what the athrofa will cost in future."*[59]

**54.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet y costau a nodir yn y Memorandwm ar gyfer yr Athrofa newydd fel "amcangyfrif gorau ar hyn o bryd"[60]. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn hyderus yng nghywirdeb yr amcangyfrifon cost cyfredol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… we are confident about the estimates that we use in the Bill. This is not one of those areas we discussed this morning where there's a wide range of costs involved. We have a clear idea of the staffing levels we would expect the athrofa to have. We know the running costs of the current centre and so on."*[61]

**55.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… if the landscape changes, then those things may change as well. That's why that review is important and what I said earlier, that if it's concluded while the Bill is still in front of the Senedd, we'll reflect that in an updated RIA. But to give some comfort to the committee as well, the RIA is very clear at a number of points that this is a 10-year programme of work and that updated costs will be needed at various points as better evidence and actual experience becomes available to us."*[62]

**56.** Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil, mynegodd Comisiynydd y Gymraeg bryderon nad yw'r Memorandwm yn:

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 139
[60] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Hydref 2024
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 143
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 143

> *"... cynnwys costau rhaglenni'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y dyraniadau cyllid hollbwysig i ddarparwyr cyrsiau hyfforddiant dysgu'r iaith Gymraeg i oedolion."*[63]

**57.** Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet pam nad yw'r costau rhaglenni hynny wedi'u cynnwys, eglurodd fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys cost y corff, nid costau'r rhaglen, ac y byddai'r cyllid presennol ar gyfer costau'r rhaglen (tua £13.6 miliwn) a redir gan y Ganolfan ar gael i'r Athrofa.[64]

## Asesiad fforddiadwyedd

**58.** Mae'r Memorandwm yn cynnwys asesiad fforddiadwyedd sy'n cwmpasu'r un cyfnod o amser â chyfnod arfarnu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn asesiad ariannol yn unig ac, fel y cyfryw, "dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod a gaiff eu cynnwys"[65].

**59.** Fel rhan o'r asesiad fforddiadwyedd mae Llywodraeth Cymru wedi nodi "y gall fod angen clustnodi cyllid ychwanegol ar gyfer costau staff ysgol neu drochi iaith i gefnogi gweithrediad y Bil yn ystod ei oes"[66].

**60.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod trochi yn gymharol newydd ac wedi tyfu'n sylweddol yn ddiweddar a bod y Bil yn cymryd yn ganiataol y bydd popeth a gaiff ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn canolfannau trochi hwyr yn parhau i fod yno. Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"... the Bill also has a real ambition to grow late immersion as part of the work to increase the number of confident Welsh speakers. So, it's a hard area to give those sorts of future costs, because it's the most dynamic part, probably, of the whole current landscape."*[67]

**61.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er y gall Llywodraeth Cymru ddarparu cost ar gyfer y system bresennol, na fyddent yn gallu darparu cost y gallai'r pwyllgor ddibynnu arni ar gyfer y system yn y dyfodol.[68]

[63] WLE07 Comisiynydd y Gymraeg
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 141
[65] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 171
[66] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 172
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 147
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 147

## Adolygiad ôl-weithredu

**62.** Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd y Bil yn arwain at newidiadau trawsnewidiol i'r seilwaith sy'n sail i bolisi iaith Gymraeg, ac yn benodol rôl addysg o fewn y broses hon.[69]

**63.** Mae'r Memorandwm yn cadarnhau y bydd angen cynnal asesiad gwerthadwyedd yn fuan ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith er mwyn sicrhau "bod yr adolygiad ar ôl gweithredu yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r polisi yn effeithiol"[70]. Nodir bod y costau sydd ynghlwm wrth hyn yn disgyn ym mlynyddoedd 1, 3, 4, 5, 9 a 10 y cyfnod arfarnu, gyda chost flynyddol o £100,000 a chost gyffredinol o £600,000.[71]

**64.** Mae'r Memorandwm hefyd yn cadarnhau y bydd gwerthusiad economaidd yn cael ei gwblhau "er mwyn nodi unrhyw wahaniaethau rhwng costau gwirioneddol y Bil a'r costau a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol"[72].

**65.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oes unrhyw arbedion cost sy'n deillio o'r Bil wedi'u nodi hyd yma. Fodd bynnag, mae'n awgrymu, yn unol ag adborth gan randdeiliaid allweddol, y gallai'r darpariaethau i "symleiddio systemau a phrosesau presennol a sicrhau y caiff adnoddau eu targedu'n well at nodau allweddol" arwain at arbedion cost yn yr hirdymor ond "n[a]d yw'n bosibl mesur yr arbedion cost hyn ar hyn o bryd." Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cadarnhau:

> *"Dylai unrhyw arbedion cost sy'n gysylltiedig â'r Bil gael eu hystyried ymhellach yn ystod y cyfnod ar ôl gweithredu."*[73]

**66.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y cynllun ar gyfer monitro'r Bil dros gyfnod cyfan y Bil wedi'i nodi yn Rhan 11 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan egluro:

> *"It starts in year 1. In the middle, we will do research to see if the intentions of the Bill are having the effect that we hoped for. At the end of that period, in years 9 and 10, there will be more work to do in terms of summative evaluation, and the*

[69] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 176
[70] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 176
[71] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 160
[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177
[73] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 110

> *economic effect, we think, will be more likely to happen during that period, the period towards the end of the 10-year period."[74]*

**67.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd:

> *"The costs in the RIA reflect the work that we are going to do. As with any Bill that's in front of the Senedd, we do have a plan to monitor the effects of the Bill and the costs, and to compare the costs that will be there with what is in the RIA at the moment."[75]*

## Barn y Pwyllgor

**68.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a fyddai'n codi'r isafswm amser gorfodol ar gyfer addysg Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf.

**69.** Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyhoeddi asesiad effaith ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau yn y dyfodol, byddai'r amser sydd ar gael ar gyfer craffu yn y Senedd yn llawer mwy cyfyngedig o'i gymharu â'r amser sydd ar gael i ystyried y Bil hwn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef. Felly, mae'n siomedig nad oeddem wedi gallu llunio barn ar y costau hyn oherwydd y diffyg gwybodaeth oedd ar gael ar y pryd.

**70.** Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer rheoliadau sy'n arwain at gostau sylweddol a bod amser yn cael ei neilltuo i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig.[76] Credwn y dylid cymhwyso'r un egwyddor yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.

**71.** Rydym yn nodi bod y Bil yn darparu i ysgolion gydweithio i ddatblygu eu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Credwn y byddai'r dull cydweithredol hwn

---

[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 145
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 23 Hydref 2024, paragraff 145
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), Ebrill 2023, tudalen 22

yn cefnogi dysgu, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth a gallai arwain at arbedion cost.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil i ganiatáu ar gyfer cydweithio ar draws ysgolion wrth ddatblygu eu cynlluniau darparu addysg Gymraeg ac yn nodi'r arbedion cost a allai godi o ganlyniad i hyn.

**72.** Nodwn fod costau'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd yn seiliedig ar gyfrifon y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chredwn fod y dull hwn yn rhoi amcangyfrif gorau o'r costau tebygol ar adeg sefydlu'r Athrofa. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru pe bai costau'r Athrofa yn newid yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd. Rydym hefyd yn croesawu sicrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y costau'n cael eu monitro drwy gydol y cyfnod gweithredu.

**73.** Fodd bynnag, nodwn fod gwahaniaeth yn y costau a amcangyfrifwyd dros y cyfnod arfarnu ar gyfer yr Athrofa ac amcangyfrif cost y Ganolfan, os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu. Fel y cyfryw, gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys dadansoddiad pellach o sut y mae'r costau wedi'u cyfrifo i gyfrif am y gwahaniaeth hwn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad llawn o sut yr amcangyfrifwyd costau'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a sut mae hyn yn cymharu â'r costau sy'n ymwneud â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

**74.** Nodwn yr ymrwymiad i nodi cyllid ychwanegol, pe bai angen, i gefnogi gweithrediad y Bil o ran costau staff ysgolion neu drochi iaith. Rydym yn cydnabod bod trochi yn ddull cymharol newydd ac mae nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau trochi wedi cynyddu'n sylweddol a all ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru ddarparu amcangyfrifon cost pe bai'n parhau i dyfu. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi cynnwys rhywfaint o fodelu yn y maes hwn a fyddai'n rhoi amcangyfrif o'r costau yn seiliedig ar wahanol senarios twf.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu amcangyfrifon cost yn ymwneud â galw cynyddol am gyrsiau trochi iaith a bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

**75.** Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth

yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau, a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian.[77] Felly, rydym yn croesawu cynnwys yr adolygiad ôl-weithredu a'r asesiad fforddiadwyedd yn y Bil hwn ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i asesu costau cyffredinol y newid yn ystod y cyfnod adolygu.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn asesu costau a buddion cyffredinol y Bil ac a yw hyn yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[77] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol y Bil Seilwaith (Cymru), Tachwedd 2023, tudalen 13